COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 3ydd o FEHEFIN 2019 YN YSTAFELL Y BAND,CRWBIN AM 7.00 O'R GLOCH
Presennol: Margaret Rees (Cadeirydd yn y gadair),Ian Evans,Linda Williams,Carol Williams,Tyssul Evans,Tracey James,Alan Lewis,Geraint Rosser,Aled Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Geoff Hewitt a Meic Bowen.

2220 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Dymunwyd yn dda i Manon Lloyd, Torcoed Fawr, Crwbin ar ei thaith Seiclo drwy Gymru yn y dyddiau nesaf.

2221 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 06/05/2019 fel rhai cywir.

2222 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2205 - Sioe Bancffosfelen a'r Cylch– Nodwyd ein bod wedi derbyn y fantolen ariannol a bydd ein cyfraniad yn cael ei danfon yn ystod y dyddiau nesaf.
Tud 1. Cofnod Rhif 2205 - Apêl Cais Rhif W/37863 - Gwrthodwyd yr Apêl gan yr Arolygydd Penodedig.
Tud 2. Cofnod Rhif 2205 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am adroddiad bellach oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 2. Cofnod Rhif 2218 – Swyddfa Bost Carwe – Cysylltir eto gyda'r Swyddfa Bost.
Tud 2. Cofnod Rhif 2219 – Cysgodfa Bys – Mae'r amcan-brys yn £4500.00.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwyr Ian Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.
2223 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Safle Ail-gylchu - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.
Ian ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2224 Bobath Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.- Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2225 Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2021 - Cyfarfod Sefydlu Pwyllgor Apêl Cylch Llangyndeyrn Nos Fercher 12/06/19- Nodwyd y Llythyr.

2226 Cwmni Yswiriant Zurich – Yswiriant y Cyngor am 2019/2020 – Awdurdodwyd y Clerc i dalu £1174.74.

2227 Cyngor Sir Gar - Llwybr 30/75 - Cefnogwyd cais y Cyngor Sir i adnewyddu'r drwydded.

2228 Cyngor Sir Gar - Cais am Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau - Nodwyd y Llythyr.

2229 Cais gan Caroline Williams i brynu Ciosg BT am £1.00 – Cefnogwyd y Cais

2230 Llythyron o gwynion ynglŷn â Chwrs Ffoslas - Penderfynwyd gofyn am Gyfarfod rhwng y Cyngor Cymuned, Cyngor Sir a Pherchnogion y Cwrs ynglŷn â'r materion.

Ceisiadau Cynllunio
2231 Doedd Dim Ceisiadau Cynllunio

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2232 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mai 2019.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2233 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £422.81 (Mis Mai)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mai)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Mai)
ch) HMRC (Treth)- £84.60 (Mis Mai)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mai)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £51.73 (Mis Mai)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mai)- £183.00
f) Roger Thomas – Cyfrifydd-Archwiliad Mewnol - £150.00

2234 Toiledau'r Meinciau
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r cyflenwad Trydan yn y Toiledau sydd yn cael ei darparu gan EDF. Arhoswn am gyngor Paul Thomas o Fenter Cwm Gwendraeth ynglŷn â'r mater cyn symud ymlaen ymhellach.

2235 Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan1)

Cynigwyd gan Tyssul Evans ac eiliwyd gan Caroline Williams ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1) am y flwyddyn 2018 -2019.

2236 Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2)

Cynigwyd gan Aled Williams ac eiliwyd gan Alan Lewis ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2) am y flwyddyn 2018 – 2019.

2237 Cyfrifon y Cyngor a Datganiadau Cyfrifyddu 2018 - 2019

Wedi derbyn adroddiad gan y Clerc, cynigwyd gan Geraint Rosser ac eiliwyd gan Ian Evans ein bod yn derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn 2018 – 2019 fel y cyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith trylwyr yn y mater hwn.

Materion Cynghorwyr

2238 - Ian – a) Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir gwneud cais i Lywodraeth Cymru am arian tuag at Corneli Chwaraeon.
b) Cysylltu a'r Coalfield Regeneration ynglyn a chymorth ariannol tuag at Gwresogydd Canolog Newydd yn Neuadd Carwe ag Ystafell Newid ym Marc Carwe.

Cyfarfod nesaf:- 1af o Gorffennaf 2019 yn Festri Capel Salem,Pedair Heol am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……